**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg 2021-2036: Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo**

Mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) i lunio datblygiad yn y dyfodol ledled y Fro tan 2036.

Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLlN yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol (2011—2026).

Rydym nawr yn gwahodd eich sylwadau ar y Cynllun Adneuo. Y Cynllun Adneuo yw'r cam ffurfiol nesaf yn y broses o baratoi'r cynllun datblygu. Mae'n ehangu ar y Strategaeth a Ffefrir, y gofynnom am eich barn arni rhwng Rhagfyr 2023 a Chwefror 2024.

Y Cynllun Adneuo yw'r fersiwn lawn ddrafft o'r CDLlN sy'n cwmpasu Bro Morgannwg yn ystod y cyfnod 2021-2036. Mae'r Cynllun Adneuo yn nodi manylion y Strategaeth gyffredinol, polisïau datblygu, meysydd i'w gwarchod, a dyraniadau tir penodol ar gyfer datblygu (gan gynnwys tai newydd, cyflogaeth) dros y cyfnod o 15 mlynedd. Mae wedi cael ei lywio gan sylfaen gadarn o dystiolaeth, gan gynnwys cyfres o bapurau cefndir ac adroddiadau ategol, yn ogystal ag Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

Gwahoddir sylwadau ar y Cynllun Adneuo a'r ACI a'r ARhC cysylltiedig, yn ogystal â'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ddrafft a'r Canllaw Cynllunio Atodol Creu Lleoedd Iach. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos rhwng **Dydd Mercher 28 Ionawr 2026 a Dydd Mercher 11 Mawrth 2026**.

Mae'r CDLl Adneuo a'r holl ddogfennau cefndir perthnasol ar gael i'w gweld ar borth ymgynghori'r Cyngor (https://valeofglamorgan.oc2.uk/cy/ ) ac yn y lleoliadau Adneuo canlynol yn ystod oriau agor arferol:

- Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU
- Holl lyfrgelloedd y Cyngor

Os hoffech chi wneud sylwadau ar y dogfennau ymgynghori, llenwch y ffurflenni sylwadau perthnasol. Mae'r Cyngor yn annog cyflwyno sylwadau'n electronig drwy ei borth ymgynghori ar-lein yn https://valeofglamorgan.oc2.uk/cy/ , ond bydd ffurflenni sylwadau a gyflwynir drwy'r post neu e-bost hefyd yn cael eu derbyn. Gellir lawrlwytho ffurflenni sylwadau o wefan y Cyngor neu maent ar gael yn y lleoliadau uchod. Gellir anfon ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at ldp@valeofglamorgan.gov.uk neu eu postio i Polisi Cynllunio, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU.

Rhaid derbyn pob sylw erbyn **23:55 ddydd Mercher 11 Mawrth 2026**. Ni ellir ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl yr adeg hon. Bydd sylwadau sy'n cael eu gwneud a'u cyflwyno'n briodol o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig yn cael eu cydnabod a'u hadrodd yn y modd priodol i'r Cyngor iddo'u hystyried.